Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Awgrymiadau i Ymarferwyr sy'n Mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant

## NOD Y DAFLEN

Nod y daflen hon yw egluro rolau a chyfrifoldebau pob Gweithiwr Proffesiynol sy'n paratoi ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant ac yn ei mynychu.

Os bydd trafodaeth neu gyfarfod strategaeth yn penderfynu bod angen cynnull Cynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol, cynhelir hon o fewn 15 diwrnod gwaith o'r penderfyniad yn cael ei wneud.

Fel gweithiwr proffesiynol perthnasol sy'n derbyn gwahoddiad, mae'n gyfrifoldeb i chi fynychu neu sicrhau cynrychiolaeth arall. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn gael ei briffio'n briodol, meddu ar y wybodaeth gywir i'w alluogi i ymgysylltu â'r broses a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## CWMPAS A PHWRPAS CYNHADLEDD AMDDIFFYN PLANT

Mae'r Gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol yn dwyn ynghyd aelodau'r teulu, y plentyn lle bo hynny'n briodol a'r gweithwyr proffesiynol hynny sydd fwyaf cysylltiedig â'r plentyn a'r teulu, yn dilyn ymholiadau Adran 47 amddiffyn plant.

Y diben yw:

- Dadansoddi yn wrthrychol, mewn sefyllfa ryngasiantaethol, yr holl bryderon a gwybodaeth a gafwyd o'r ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant, yr asesiadau hyd yn hyn ac o wybodaeth flaenorol o'r teulu
- Gwneud dyfarniadau ynghylch y tebygolrwydd y gallai plentyn neu unrhyw blant cysylltiedig neu heb eu geni ddioddef niwed yn y dyfodol, hynny yw, lefel y risg barhaus
- Penderfynu pa gamau gweithredu yn y dyfodol sydd eu hangen i ddiogelu'r plentyn ac i hyrwyddo eu lles, cytuno ar sut i symud hyn ymlaen ac egluro'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y plentyn, hynny yw, yr angen i gofrestru a Chynllun Amddiffyn Plentyn

**PARATOI**

Os cewch eich gwahodd i fynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant**mae'n rhaid i chi**:

- Darparu adroddiad ysgrifenedig gan ddefnyddio templed eich asiantaeth eich hun
- Dylai'r adroddiad –
  - grynhoi cysylltiad yr asiantaeth â'r teulu, eu gwybodaeth am iechyd a datblygiad y plentyn ac yn bwysig eu barn ar allu'r rhieni i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn
  - cynnwys tystiolaeth bod cofnodion yr asiantaeth wedi'u gwirio am ddata ffeithiol
  - gwahaniaethu rhwng gwybodaeth hanesyddol a diweddar a gwneud cysylltiadau ynglŷn â phatrymau ymddygiad ac ati
  - gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n ffaith, arsylw, honiad neu farn
  - dadansoddi'r risgiau'n glir
  - am arweiniad pellach os gwelwch yn dda Practice Guidance Decision Making at CPC - Jan 2022 Cymraeg (gwentsafeguarding.org.uk)
- Darparu'r adroddiad i Gadeirydd y Gynhadledd 48 awr cyn y Gynhadledd
- Rhannu'r adroddiad gyda'r teulu o leiaf 1 diwrnod cyn y Gynhadledd
- Dylid tynnu gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol at sylw'r Cadeirydd y Gynhadledd cyn i'r Gynhadledd ddechrau
- ***Os na all eich asiantaeth fynychu, mae'n rhaid i chi gynnig eich ymddiheuriadau cyn gynted â phosib gan roi rheswm pam na allwch chi anfon cynrychiolydd***
- Ymgyfarwyddo â'r categorïau cofrestru

**MYNYCHU CYNHADLEDD**

Bydd y Gynhadledd yn cael ei chadeirio gan Gadeirydd Annibynnol y Gynhadledd

Mae'n rhaid i chi gyrraedd cyn dechrau'r Gynhadledd er mwyn darllen yr adroddiadau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol eraill

Yn ogystal ag anfon copi electronig o'r adroddiad a anfonir at y Cadeirydd 48 awr cyn y gynhadledd, gwnewch yn siwr gennch fynediad i'ch copi eich hun yn y Gynhadledd er gwybodaeth

Os nad ydych erioed wedi mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant o'r blaen sicrhewch eich bod wedi ymbaratoi'n llawn a'ch bod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau.

Dylai pob asiantaeth fod yn ymwybodol y gall aelodau'r teulu, gwarcheidwaid, plant a phobl ifanc fod yn bresennol. Bydd hyn yn cael ei reoli'n briodol gan y Cadeirydd yn ystod y Gynhadledd

Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau ac egluro unrhyw wybodaeth a rennir. Rhaid i chi wrando ar yr holl wybodaeth a rennir yn y Gynhadledd er mwyn llywio'ch penderfyniadau

Efallai y bydd yr wybodaeth a rannwch yn ystod y Gynhadledd yn agored i'w herio gan asiantaethau eraill ac aelodau'r teulu sy'n bresennol

**Mae diffyg presenoldeb yn cael effaith ar gael cworwm ac efallai y bydd yn rhaid i'r Gynhadledd gael ei chanslo. Felly, os na allwch fynychu neu anfon cynrychiolydd, rhaid i chi roi digon o rybudd**

## GWNEUD PENDERFYNIADAU

**Mae'n rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n mynychu'r Gynhadledd fod yn ymwybodol eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac na allant ddiystyru eu cyfrifoldeb**

- Fel gweithiwr proffesiynol, dylai'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar eich dadansoddiad o'r wybodaeth a rennir yn y Gynhadledd
- Gofynnir i'r person a enwebir neu'r arweinydd gan bob grŵp proffesiynol a ddylid rhoi enw'r plentyn neu'r person ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ai peidio
- Wrth roi eich argymhelliad dylech roi eglurhad clir i gefnogi'ch argymhelliad
- Bydd y Cadeirydd yn datgan penderfyniad y Gynhadledd yn dilyn argymhellion a bydd y Cadeirydd yn cytuno ar gategori
- Os bydd penderfyniad rhanedig, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais benderfynol
- **am arweiniad pellach os gwelwch yn dda Practice Guidance Decision Making at CPC - Jan 2022 Cymraeg (gwentsafeguarding.org.uk)**

## YN DILYN PENDERFYNIAD MEWN CYNHADLEDD

- Os cytunir bod enw'r plentyn yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant -
    - Bydd y Cadeirydd yn gwneud argymhellion ar gyfer y Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plentyn a amlinellir
    - Bydd Aelodau Grwp Craidd yn cael eu cytuno
    - Bydd dyddiad ar gyfer cyfarfod Grŵp Craidd yn cael ei osod a chynhelir hwn o fewn 10 diwrnod gwaith o'r Gynhadledd Amddiffyn Plant
    - Bydd dyddiad ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant adolygu nesaf yn cael ei osod o fewn yr amserlenni gofynnol (3 mis ar ôl y Gynhadledd gychwynnol, 6 misol wedi hynny)
- Os cytunir nad yw enw'r plentyn yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu ei fod yn cael ei dynnu -
    - Rhoddir ystyriaeth i'r angen am Gynllun Gofal a Chymorth ac argymhellion ynghylch unrhyw anghenion parhaus a phennir dyddiad ar gyfer cyfarfod cynllunio cychwynnol os yw'n briodol
- Byddwch yn derbyn cofnodion y Gynhadledd o fewn 20 diwrnod gwaith
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod cofnodion y Gynhadledd yn cael eu cadw'n saff, yn ddiogel, a bod cyfrinachedd yn cael ei sicrhau
- Os ydych chi'n anfodlon ar y Gynhadledd neu'r penderfyniad a wneir, gallwch godi hyn gyda'r Cadeirydd, neu'ch arweinydd penodedig. Gall rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed yn y Gynhadledd

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y cedwir at unrhyw ddyddiadau a osodir yn y dyfodol yn unol ag arfer eich asiantaeth

**Dogfennau allweddol ar gyfer cyfeirio:**

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru**
https://www.safeguarding.wales/en/

**Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2014,**
Working Together to Safeguard People (gov.wales)

**Protocol Aml-Asiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau rhwng Ymarferwyr**
Multi Agency Protocol for Resolving Practitioner Differences Protocol - January 2023 Cymru (gwentsafeguarding.org.uk)

**Goruchwyliaeth aml-asiantaeth**
Multi Agency Supervision Principles (gwentsafeguarding.org.uk)

**Canllawiau Amlasiantaethol ar Weithio gyda Rhieni Gelyniaethus ac Anghydweithredol**
Multi Agency Guidance for Working with Hostile and Uncooperative Parents - WELSH (gwentsafeguarding.org.uk)

**Bwrdd Diogelu Gwent Gweithdrefn Gwyno**
Gwent Safeguarding Board Complaints Procedure - WELSH